Pecyn Dogfen Cyhoeddus

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 28 Tachwedd 2013

Rhif Union: 01824 712568

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 4 RHAGFYR 2013** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, Y RHYL**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG A'R CYHOEDD FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu yn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2013 (copi wedi'i amgáu).

**5 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2013/14** (Tudalennau 13 - 16)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

**RHAN 2 - EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem(au) busnes canlynol yn cael eu trafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 14, Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

**6 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - YMGEISYDD RHIF 041213** (Tudalennau 17 - 26)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i'r aelodau wneud penderfyniad ynglŷn â chais i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat, gan Ymgeisydd Rhif 041213.

**7 ADOLYGU TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 045613** (Tudalennau 27 - 46)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i'r aelodau adolygu trwydded gyrrwr cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat Gyrrwr Rhif 045613.

**8 ADOLYGU TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 046577** (Tudalennau 47 - 64)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i'r aelodau adolygu trwydded gyrrwr cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat Gyrrwr Rhif 046577.

**9 ADOLYGU TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 048997** (Tudalennau 65 - 88)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i'r aelodau adolygu trwydded gyrrwr cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat Gyrrwr Rhif 048997.

**10 ADOLYGU TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 047689** (Tudalennau 89 - 110)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i'r aelodau adolygu trwydded gyrrwr cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat Gyrrwr Rhif 047689.

**11 ADDASRWYDD CERBYD AR GYFER TRWYDDED CERBYD HACNI** (Tudalennau 111 - 114)

Ystyried adroddiad cyfrinachol Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais trwydded gyrru Cerbyd Hacni.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Joan Butterfield
William Cowie
Richard Davies
Stuart Davies
Hugh Irving
Pat Jones
Barry Mellor
Win Mullen-James
Peter Owen
Arwel Roberts
Cefyn Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
# GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL

| CAM | DISGRIFIAD |
|---|---|
| 1. | Dylai'r Cadeirydd groesawu a chyflwyno'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol. |
| 2. | Dylai'r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Os yw'r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4. |
| 3. | Pe digwydd i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio'r mater, am gyfnod byr, er mwyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad. |
| 4. | Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno'r cais/adolygiad yn fras |
| 5. | Gofynnir i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos<br><br>Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae'n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny. |
| 6. | Gall Aelodau'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion. |
| 7. | Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.) |
| 8. | Gall Aelodau'r Pwyllgor ac yna'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i'r swyddogion technegol |
| 9. | Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. |
| 10. | Gofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol.<br><br>DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau'r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r sawl sy'n cymryd y cofnodion. |

| | |
|---|---|
| 11. | Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd. |
| 12. | Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd. |
| 13. | Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd. |
| 14. | Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded. |
| 15. | Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn). |
| 16. | Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan:<br><br>1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.<br>2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd.<br><br>Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded. |
| 17. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl. |
| 18. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor. |

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 18 Medi 2013 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr William Cowie, Richard Davies, Stuart Davies, Win Mullen-James, Peter Owen, Arwel Roberts a/ac Cefyn Williams (Cadeirydd)

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Swyddog Trwyddedu (NJ & JT), Swyddog Gorfodaeth Trwyddedi (HB) a’r Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

**1 YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Hugh Irving, Pat Jones a Barry Mellor

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni ddatganwyd cysylltiad personol na chysylltiad sy’n rhagfarnu gan unrhyw un.

**3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2013 a’r Pwyllgor Trwyddedu Arbennig a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2013.

***PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2013 a 27 Mehefin 2013 fel cofnod cywir.*

Ar y pryd hwn, nododd y Cadeirydd ei fwriad i amrywio trefn y rhaglen i ddarparu ar gyfer yr unigolion hynny sy’n dod i’r cyfarfod i gefnogi eu hadolygiadau trwydded a chlywed eu hachosion cyn unrhyw fater arall.

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD** dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**5 ADOLYGU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF 044473**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) ar –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 044473 i ddal trwyddedau i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) roedd y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2013 wedi gohirio ystyried yr adroddiad yn absenoldeb y Gyrrwr er mwyn rhoi cyfle pellach iddo gyflwyno ei achos (roedd dyfyniad o’r cofnodion wedi’i atodi i’r adroddiad);

(iii) roedd pryderon wedi’u codi gan y Swyddogion Gorfodi Trwyddedu ynglŷn ag ymddygiad y gyrrwr trwyddedig ar nifer o achosion unigol yn dilyn digwyddiad ar 27 Chwefror 2013 (roedd crynodeb o’r ffeithiau ynghyd â datganiadau tystion wedi eu hatodi i’r adroddiad), a

(iv) gofynnwyd i’r Gyrrwr i fod yn bresennol mewn cyfarfod i gefnogi ei adolygiad trwydded ac ymateb i gwestiynau aelodau ar hynny.

Cadarnhaodd y Gyrrwr a’i Gynrychiolydd Cyfreithiol eu bod wedi derbyn yr adroddiad a threfnau’r pwyllgor. Gwnaed cais i oedi’r gwrandawiad ar y sail bod cyfeiriad anghywir wedi’i wneud at bwerau deddfwriaethol yr Awdurdod Lleol yn yr adroddiad. Yn dilyn gohiriad i ystyried y cynnig, dywedodd y Cadeirydd fod y pwyllgor wedi cytuno i ohirio’r mater i gyfarfod arbennig er mwyn caniatáu i’r anghywirdeb gael ei gywiro. Er mwyn sicrhau eglurder, ailadroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y cyngor a roddwyd ganddo yn ystod y sesiwn gaeedig. Yn dilyn ymgynghoriad byr gyda’i glient, dywedodd y Cynrychiolydd Cyfreithiol ei fod yn barod i barhau â’r gwrandawiad er waethaf yr anghywirdeb ac ail ddechreuodd y gwrandawiad.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) yr adroddiad a manylion yr achos.

Darllenwyd datganiad a roddwyd gan y Gyrrwr a roddodd rywfaint o wybodaeth gefndir yn tystio i’w gymeriad gan gynnwys hanes cyflogaeth, amgylchiadau teuluol a'i waith yn y gymuned leol. Amlygwyd nad oedd wedi bod yn destun cwyn ers dod yn yrrwr trwyddedig yn 2006. Ymatebodd y Cynrychiolydd Cyfreithiol i’r cyhuddiadau a fanylwyd yn yr adroddiad a chyflwynodd y dystiolaeth a ganlyn hefyd –

- dau ddatganiad gan dystion i’r digwyddiadau ar 27 Chwefror a 26 Mawrth 2013
- trawsgrifiad o’r sgwrs gyda Swyddog yr Heddlu ar 27 Chwefror 27 2013
- llythyr dyddiedig 22 Mawrth 2013 gan yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr ynglŷn â’r camau a gymerwyd ar 27 Chwefror 2013
- e-bost dyddiedig 17 Medi 2013 gan Heddlu Gogledd Cymru mewn ymateb i gŵyn ffurfiol yn ymwneud â’r digwyddiad ar 27 Chwefror 2013.

Cwestiynodd yr Aelodau’r Gyrrwr ar eu fersiwn o’r digwyddiadau a’i ymddygiad gyda’r gwahanol swyddogion ar yr achlysuron a fanylwyd yn yr adroddiad.

Ymatebodd y Gyrrwr hefyd i gwestiynau a godwyd ynglŷn â'i ymwneud â'r swyddogion trwyddedu.

Yn ei ddatganiad terfynol, ategodd y Cynrychiolydd Cyfreithiol nad oedd gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn gan swyddogion penodol ar 27 Chwefror a oedd wedi arwain at y digwyddiadau dilynol.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PENDERFYNWYD*** *nad oedd yr honiadau a wnaed yn erbyn Gyrrwr Rhif 044473 wedi'u profi ac na ddylid gweithredu o gwbl.*

Dyma oedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Roedd yr Aelodau wedi ystyried yr adroddiad a'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr achos hwn yn ofalus. Ni ddaeth y pwyllgor o hyd i unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau cyflwyno'r gosb ac nid oeddynt wedi'u bodloni fod prawf o'r cyhuddiadau a wnaed mewn perthynas ag ymddygiad y Gyrrwr. O ganlyniad, nid oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Cyfleodd y Cadeirydd benderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau dros hynny i Yrrwr Rhif 044473 a'i Gynrychiolydd. Gofynnodd hefyd i'r Gyrrwr gydweithredu'n llawn gyda swyddogion trwyddedu mewn unrhyw gyswllt yn y dyfodol.

Ar y pwynt hwn (10.50 am) cafwyd egwyl.

## 6 ADOLYGU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF 043120

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) ar –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 043120 i ddal trwyddedau i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) derbyniwyd cwyn gan Heddlu Gogledd Cymru ynglŷn ag ymddygiad y gyrrwr trwyddedig ar ddau wahanol achlysur: 21 Chwefror a 6 Gorffennaf 2013 (roedd crynodeb o'r ffeithiau ynghyd â datganiadau tystion; trawsgrifiad o'r cyfweliad a recordiwyd a dogfennau cysylltiedig wedi'u hatodi i'r adroddiad);

(iii) Roedd Gyrrwr Rhif 043120 wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor Trwyddedu ar 6 Mawrth 2013 ynglŷn â digwyddiad ar wahân ac wedi derbyn rhybudd ffurfiol ynglŷn â'i ymddygiad yn y dyfodol (roedd dyfyniad o'r cofnodion wedi'i atodi i'r adroddiad), a

(iv) gofynnwyd i'r Gyrrwr i fod yn bresennol mewn cyfarfod i gefnogi ei adolygiad trwydded ac ymateb i gwestiynau aelodau ar hynny.

Nid oedd y Gyrrwr yn bresennol ac fe gysylltodd â swyddogion y diwrnod cynt yn rhoi gwybod iddynt na fyddai'n gallu dod i'r cyfarfod oherwydd ymrwymiadau

gwaith. Gofynnwyd yn gynharach iddo nodi unrhyw sylwadau roedd yn bwriadu eu gwneud yn ysgrifenedig ond ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau o'r fath. Gan ystyried difrifoldeb y mater, cytunodd y pwyllgor i fwrw ymlaen yn absenoldeb y Gyrrwr.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu'r adroddiad a manylodd ar ffeithiau'r achos. Rhoddodd aelodau ystyriaeth i'r dystiolaeth a gyflwynwyd a -

***PENDERFYNWYD*** *Gwahardd Gyrrwr Rhif 043120 yn syth rhag gyrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat am gyfnod o dri mis ar sail diogelwch y cyhoedd yn unol ag Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.*

Dyma oedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Rhoddodd Aelodau ystyriaeth ofalus i'r wybodaeth a gyflwynwyd iddynt a rhoddwyd ystyriaeth i'r ffaith fod y Gyrrwr wedi'i gynghori i gyflwyno ei sylwadau'n ysgrifenedig ond nid oedd wedi gwneud hynny. Mynegodd y pwyllgor bryderon difrifol ynglŷn ag ymddygiad y Gyrrwr a fanylwyd yn yr adroddiad a oedd yn dangos ei ddifaterwch llwyr tuag at y gyfraith a diogelwch y cyhoedd. Ystyriaeth bwysicaf y pwyllgor oedd diogelwch y cyhoedd a theimlai aelodau fod difaterwch y Gyrrwr tuag at ddiogelwch y cyhoedd yn golygu y dylai ei waharddiad ddod i rym ar unwaith er mwyn diogelu'r cyhoedd. Yn ogystal, rhoddodd aelodau ystyriaeth i rybudd blaenorol a roddwyd i'r Gyrrwr ynglŷn â'i ymddygiad a oedd hefyd wedi arwain at bryderon o ran diogelwch y cyhoedd.

Mynegodd Aelodau bryder hefyd nad oedd y Gyrrwr yn gwisgo ei fathodyn yn ystod y digwyddiad ar 21 Chwefror 2013 a oedd yn groes i amodau ei drwydded cerbyd hacni / cerbyd hurio preifat ac nad oedd yn ymddangos ei fod yn ymwybodol o'r ffaith honno. Roedd rhaid i yrwyr trwyddedig wisgo bathodynnau i sicrhau'r cyhoedd eu bod wedi eu trwyddedu ac yn addas a phriodol.

**7 ADOLYGU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF 047689**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cymeradwyo cais am ohiriad yn yr achos hwn gan Yrrwr Rhif 047689. O ganlyniad, gohiriwyd y mater hwn tan gyfarfod nesaf y pwyllgor ar 4 Rhagfyr 2013.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid nodi'r sefyllfa.*

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau trafod y materion uchod, parhaodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

**8 DEDDF TRWYDDEDU 2003 – AWDURDOD TRWYDDEDU FEL AWDURDOD CYFRIFOL**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) yn rhoi gwybod i aelodau am y

trefniadau a wnaed i alluogi'r Awdurdod Lleol i gyflawni ei swyddogaethau fel Awdurdod Cyfrifol.

Clywodd Aelodau am y newid diweddar yn y ddeddfwriaeth a oedd yn rhoi'r grym i awdurdodau gyflawni'r un swyddogaethau ag Awdurdodau Cyfrifol eraill dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Amlygwyd pwysigrwydd cyflawni gwahaniad cyfrifoldebau o fewn yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau tegwch trefniadol a dileu gwrthdaro buddiannau a rhoddwyd manylion am y rolau a'r cyfrifoldebau presennol. Er mwyn sicrhau gwahaniad cyfrifoldebau priodol yn sgil y grymoedd newydd, argymhellwyd y dylid neilltuo swyddogaeth yr Awdurdod Cyfrifol am Drwyddedu i'r Uwch Swyddog Gorfodi Cymunedol.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai swyddogaeth yr Awdurdod Cyfrifol ar ran y Pwyllgor Trwyddedu yn cael ei dirprwyo i'r Uwch Swyddog Gorfodi Cymunedol.*

**9 DIWEDDARIAD AR ADOLYGIAD O FFIOEDD A THALIADAU TRWYDDEDAU 2013/14**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar gynnydd yr adolygiad o ffioedd a thaliadau trwyddedu 2013/14.

Amlygwyd natur hir a chymhleth y broses o bennu gwir gost gweinyddu bob swyddogaeth, ynghyd â goblygiadau dyfarniad diweddar yn yr Uchel Lys, Hemmings v Cyngor Dinas Westminster (amgaewyd fel atodiad i'r adroddiad). Roedd canlyniad y dyfarniad hwn yn egluro pa gostau y gellid eu hystyried wrth bennu ffioedd. Roedd Panel Technegol Trwyddedu Cymru Gyfan wedi derbyn y dasg o edrych ar ffioedd a thaliadau ac roedd swyddogion wrthi'n cyfrannu at y broses honno, gyda chyfarfodydd rheolaidd wedi'u trefnu am weddill y flwyddyn.

Mewn ymateb i gwestiynau, eglurodd y Swyddog Trwyddedu'r ystod o ffactorau a oedd yn pennu lefel ffioedd a oedd yn gwahaniaethu rhwng awdurdodau lleol. Er na ellid cyflwyno ffi generig ar draws awdurdodau Cymru, roedd y Panel Technegol Trwyddedu yn gweithio i ddatblygu cyfres o drefnau generig ar gyfer pennu ffioedd a thaliadau. Cydnabu Aelodau bwysigrwydd sicrhau fod yr adolygiad yn cael ei gynnal yn drylwyr er mwyn osgoi unrhyw heriau cyfreithiol yn y dyfodol a –

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cadw'r strwythur ffioedd presennol nes bod y Panel Technegol Trwyddedu wedi penderfynu ar gyfres o drefnau generig ar gyfer pennu ffioedd a thaliadau a nes y cynhelir adolygiad llawn.*

**10 ADOLYGU POLISÏAU CASGLU O DDRWS I DDRWS A CHASGLU AR Y STRYD**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) yn gofyn i aelodau adolygu'r polisïau drafft ar gyfer dyrannu a monitor trwyddedau Casglu o Ddrws i Ddrws a Chasglu ar y Stryd (amgaewyd fel Atodiad A yr adroddiad) yn dilyn yr ymarferiad ymgynghori.

Roedd y Pwyllgor Trwyddedu ar 12 Medi 2012 wedi cytuno i gynnal ymarferiad ymgynghori ar yr adolygiad o bolisïau ar gyfer casgliadau elusennol. Roedd yr

adroddiad yn amlinellu'r broses ymgynghori ac yn rhoi manylion y sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â Chasgliadau ar y Stryd (ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ymwneud â Chasgliadau o Ddrws i Ddrws) a'r diwygiadau a argymhellwyd mewn ymateb iddynt. Gofynnwyd i Aelodau ystyried y polisïau drafft yn sgil yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad.

Rhoddodd Aelodau ystyriaeth i'r polisïau drafft ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac roeddent yn fodlon fod yr ymateb i'r sylwadau yn briodol.

***PENDERFYNWYD*** *cefnogi ac argymell bod y Cyngor Sir yn cymeradwyo a mabwysiadu'r polisïau drafft ar gyfer Casgliadau o Ddrws i Ddrws a Chasgliadau ar y Stryd a amlinellir yn Atodiad A yr adroddiad a'r newidiadau bwriedig a fanylir yn Atodiad C yr adroddiad.*

**11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2013/14**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) ar raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 am

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 4 Rhagfyr 2013 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOGION CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Trwyddedu<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706451 |
| **TESTUN:** | Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2013/14 |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 I hysbysu'r Aelodau o gynnig i newid Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol presennol yn Atodiad 1, er gwybodaeth i'r Aelodau.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Cymeradwyodd yr Aelodau y rhaglen gwaith i'r dyfodol ym mis Mehefin 2013. Yn anffodus, o ganlyniad i nifer o amgylchiadau annisgwyl, nid yw'r Swyddogion wedi llwyddo i gadw at ei ofynion ac maent wedi gorfod ail-flaenoriaethu eu hamser.

3.2 Mae wedi cymryd cryn dipyn o amser i'r Swyddogion baratoi ar gyfer gweithredu Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013. Cafodd y ddeddfwriaeth ei rhuthro i mewn gan y Senedd, gan roi ychydig iawn o rybudd i Awdurdodau Lleol; felly roedd y Swyddogion wedi gorfod blaenoriaethu hyn yn hytrach na'r gwaith a gynlluniwyd. Mae swyddogion wedi gorfod llunio adroddiadau i'r Cabinet a'r Cyngor Sir i sicrhau bod y dirprwyaethau a'r awdurdodiadau yn gywir ynghyd â gosod ffioedd ar gyfer ceisiadau o'r fath. Mae swyddogion wedi cynnal ymarfer pennu ffioedd manwl i sicrhau bod modd cyfiawnhau'r ffioedd yn llawn.

3.3 Efallai bod yr Aelodau'n ymwybodol bod yr Adain yn y broses o symud o un gronfa ddata drwyddedu i un arall. Mae Swyddogion wedi bod yn ymwneud yn helaeth â mapio data ac maent yn rhagweld y bydd yn rhaid neilltuo cyfran fawr o'u hamser i sicrhau bod yr holl ddata perthnasol yn ei

le ac yn gwbl weithredol, unwaith y bydd y gwaith o drosglwyddo data wedi ei gwblhau. Yn ogystal, mae oedi annisgwyl wedi bod yn y broses drosglwyddo, sy’n golygu na fydd modd trosglwyddo’r gwaith sydd wedi ei wneud ers mis Awst yn defnyddio’r gronfa ddata bresennol yn awtomatig i'r system newydd. Bydd yn rhaid i Swyddogion fewnbynnu’r data yma pan fydd y system newydd yn fyw.

3.4 I ychwanegu at y baich hwn, mae lefelau staffio wedi eu lleihau oherwydd i Swyddog Cefnogi Trwyddedu orfod cymryd absenoldeb mamolaeth yn gynt na'r disgwyl. Mae hyn wedi cael effaith ar weddill y tîm trwyddedu, sy'n gorfod amsugno llwyth gwaith y Swyddog Cefnogi Trwyddedu.

3.5 Mae nifer o adolygiadau polisi cymhleth angen eu gwneud ac mae'r rhain yn gofyn am waith ymchwil helaeth, e.e. trwyddedu tacsis, Sefydliad Rhyw, Masnachu ar y Stryd. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r adolygiad trwyddedu tacsis. Rhagwelir y bydd rhan o'r polisi yn cael ei dwyn ger bron yr Aelodau yn gynnar y flwyddyn nesaf.

3.6 Felly, ym mis Mawrth, hoffai’r swyddogion gyflwyno Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddwy flynedd sy’n cynnwys yr adolygiadau polisi uchod.

4. **ARGYMHELLION**

4.1 Argymhellir y dylai Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad a chaniatáu Swyddogion i gyflwyno Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol ddiwygiedig yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Mawrth.

**ATODIAD 1**

**ADRODDIAD I'R: PWYLLGOR TRWYDDEDU**

**DYDDIAD: 4 Rhagfyr 2013**

**ADRODDIAD GAN: PENNAETH CYNLLUNIO A DIOGELU'R CYHOEDD**

**TESTUN: RHAGLEN GWAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2013/14**

| DYDDIAD | ADRODDIAD | SYLW |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2013 | Adolygiad o'r Polisi Sefydliad Rhyw presennol | Adroddiad er ystyriaeth Aelodau |
| | Adroddiad er ystyriaeth a chymeradwyaeth Aelodau fel bod modd i Swyddogion ymgynghori â'r holl bobl berthnasol | Adolygiad o'r polisi a'r amodau presennol ar gyfer Cerbydau Hacni a Gyrwyr Hurio Preifat a Gweithredwyr |
| | Adroddiad ar weithredu System Pwyntiau Cosb ar gyfer dalwyr trwydded Cerbyd Hacni a Hurio Preifat | Adroddiad er ystyriaeth Aelodau |
| Mawrth 2014 | Cytuno ar Raglen Waith i'r Dyfodol 2014/15 | |
| | Adolygiad o'r Polisi Masnachu ar y Stryd presennol. | Adroddiad er ystyriaeth a chymeradwyaeth Aelodau fel bod modd i Swyddogion ymgynghori â'r holl bobl berthnasol |
| | Adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw | ‚Adroddiad i'r Aelodau ystyried adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw presennol. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag